# Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Ysbyty Aneurin Bevan, Carn y Cefn

21 Gorffennaf 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN digidol 978-1-4734-4770-7


© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 3

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

Safonau Craidd ........ 6

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ........ 10

6. Y Camau Nesaf ........ 13

Atodiad A ........ 14

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, AGIC sydd wedi bod yn gyfrifol am fonitro Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae ein harolygiadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys ysbytai annibynnol yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu yn elfen allweddol o'n dull o asesu ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau, a hynny drwy:

- Fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau Monitro Deddf Iechyd Meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i leisio pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflenwi arolygiadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys:

- Craffu ar ddogfennaeth ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Cyfweliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol, sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, yn y broses arolygu.  Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

## 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd er mwyn Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn Ward Carn y Cefn, Ysbyty Aneurin Bevan, Glynebwy ar 21 Gorffennaf 2015.

Ward iechyd meddwl i oedolion yw Carn y Cefn sydd ag 11 gwely ac sy'n darparu gofal i gleifion sydd wedi cael diagnosis o anawsterau iechyd meddwl ac sydd angen cyfnod o ofal preswyl.

Yn ystod y dydd gwnaethom ymweld â'r uned i adolygu cofnodion cleifion, i gyfweld â staff, i adolygu'r amgylchedd gofal ac i arsylwi ar y rhyngweithio rhwng staff a chleifion. Nid oedd yr un o'r cleifion eisiau cwrdd â ni i drafod eu profiadau ar y ward. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un Adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un aelod o staff AGIC.

## 4. Crynodeb

Ward iechyd meddwl a adeiladwyd i'r diben yw Carn y Cefn, sy'n rhan o wasanaeth iechyd meddwl Cwm Coch yn Ysbyty Aneurin Bevan.

Roedd yr uned yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ar y cyfan ac yn cynnwys celfi addas ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd amgylchedd digynnwrf a hamddenol trwy gydol ein hymweliad.

Ers i'r ward gael ei chau dros dro yn sgil nifer annigonol o staff, mae'r bwrdd iechyd wedi recriwtio ar gyfer amryw swyddi er mwyn cynyddu'r garfan nyrsio. Soniodd y staff a welsom ar ddiwrnod yr arolygiad am waith tîm da ac am dîm brwdfrydig sy'n ymroddedig i'r grŵp cleifion. Roedd cysylltiadau da rhwng y gwasanaeth ar gyfer cleifion preswyl a'r tîm cymunedol a oedd yn darparu dilyniant yng ngofal cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o ddogfennaeth statudol a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Gwnaethom ddod o hyd i feysydd o arfer da wrth ddarparu hawliau i gleifion, fodd bynnag, roedd nifer o feysydd y gellid eu gwella ynghylch cadw cofnodion, yn unol ag arfer da.

# 5. Canfyddiadau

## *Safonau Craidd*

**Amgylchedd y ward**

Ar ddiwrnod yr arolygiad nid oedd y fynedfa wedi cael ei chloi; ni chaiff y fynedfa ei chloi rhwng 9am a 5pm. Os gwneir penderfyniad i gloi'r ward, dywedwyd wrthym fod hwnnw'n seiliedig ar benderfyniad clinigol er mwyn atal nifer o'r cleifion rhag gadael y ward heb awdurdod.

Nid oedd gwybodaeth wedi'i harddangos a oedd yn esbonio i'r cleifion hynny a oedd yn cael gadael y ward sut i wneud hynny, os oeddent yn dymuno gwneud pan oedd y drws wedi'i gloi rhwng 5pm a 9am.

Ar ddiwrnod ein harolygiad dirybudd roedd y ward yn ymddangos yn lân, yn daclus ar y cyfan, a heb aroglau amhleserus neu glinigol ynddi. Ar y cyfan roedd y mannau cymunedol wedi'u dodrefnu'n dda ac roedd y gosodiadau a'r ffitiadau'n briodol ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd gan y ward ardal gymunedol fawr oedd yn cynnwys lolfa a lle bwyta. Roedd lolfa fach ychwanegol y gallai cleifion fynd ati.

Roedd nifer o ystafelloedd bach ar gael at ddefnydd y cleifion, oedd yn ddigon o faint ar gyfer grwpiau bach. Roedd ystafelloedd wrth fynedfa'r ward y gallai'r cleifion eu defnyddio i gwrdd ag aelodau'r teulu neu ymwelwyr eraill.

Roedd y ward wedi'i haddurno'n braf a cheid lluniau a gweithiau celf ynddi drwyddi draw. Roedd gan y ward amrywiaeth o bosteri a thaflenni gwybodaeth wedi'u harddangos o gwmpas y ward ar gyfer cleifion a'u teuluoedd. Roeddem yn falch o nodi bod nifer fawr o gardiau 'Diolch' gan gleifion a'u perthnasau wedi cael eu harddangos.

Roedd gan y cleifion fynediad uniongyrchol o'r lolfa gymunedol at ardd fawr, gaeedig oedd yn cael ei chynnal yn dda. Gall y cleifion gael mynediad at yr ardal hon drwy gydol y dydd, am nad yw'n cael ei chloi.

Roedd gan Garn y Cefn ystafell ysmygu a oedd yn addas i'w defnyddio; nid oedd ysmygu'n cael ei ganiatáu rhwng hanner nos a 6am, er mwyn annog cleifion i gysgu. Roedd gan gleifion fynediad at gymorth i roi'r gorau i smygu, os mai dyna'u dymuniad.

***Cam gofynnol***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth wedi'i harddangos sy'n hysbysu cleifion o'u hawl i adael y ward, a sut i wneud hynny pan fo'r ward ar glo.***

## Diogelwch

Roedd staff yn gallu cael gafael ar gopi o bolisi arsylwi'r bwrdd iechyd ar y ward ac ar system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Nid oedd rhwymynnau ar osodiadau a ffitiadau'r ysbyty ym mannau'r cleifion trwyddynt draw. Dywedodd y staff fod lefelau arsylwi'n cynyddu, os oedd angen, er mwyn adlewyrchu'r risg sy'n cael ei beri gan ymddygiad unrhyw glaf.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff sy'n gweithio ar y ward wedi cael hyfforddiant ar ffyrdd diogel o ymyrryd â sefyllfa'n gorfforol. Gwelsom staff yn dad-ddwysáu ac yn ailgyfeirio cleifion mewn ffordd urddasol a gofalgar.

Nid oedd y staff yn cario larymau personol ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod staff yn gallu cael mynediad at system radio dwy ffordd, ond nid oedd larymau go iawn ar gael yng Ngharn y Cefn.  Dywedodd amryw staff y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus pe bai modd iddynt gael larymau personol, a bwrw bod y risgiau sy'n cael eu peri gan y grŵp cleifion yn gwneud hynny'n angenrheidiol.

***Cam gofynnol***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod larymau'n cael eu darparu i staff ac ymwelwyr yng Ngharn y Cefn.***

## Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan gleifion ystafelloedd gwely unigol gyda chyfleusterau en suite a chawod. Roedd cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd gwely eu hunain ac roedd y rhain wedi'u dodrefnu'n addas ac iddynt ddigon o gyfleusterau storio. Roedd gan y cleifion fotymau yn eu hystafelloedd gwely i alw am gymorth nyrs, pe bai angen.

Roedd cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely ond roedd y staff yn gallu eu hagor os oedd angen. Roedd paneli arsylwi yn nrysau'r ystafelloedd gwely, ond roedd ond modd eu rheoli o'r tu allan i'r ystafell. Nodwyd bod yr holl baneli arsylwi ar gau a chadarnhaodd y staff eu bod ond yn cael eu hagor pan roedd staff yn arsylwi. Roedd mesurau preifatrwydd priodol wedi'u sefydlu ar gyfer ffenestri ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd toiledau ac ystafell ymolchi ar gael i'r cleifion ar y ward.  Roedd cymhorthion priodol ar gael ar gyfer codi a symud, pe bai angen.

Roeddem yn falch o weld cyfleusterau golchi dillad ar y safle, ac roedd y cleifion yn gallu gwneud y golch gyda chymorth y staff.  Fodd bynnag, os nad oedd cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain, byddai staff yn gwneud hyn drostynt. Fe'n hysbyswyd bod staff yn gwneud y golch yn ystod y sifft nos felly os oedd gan glaf ond nifer fach o eitemau dillad byddent yn cael eu golchi'n rheolaidd a byddent ar gael i'r claf. Dywedwyd wrthym hefyd fod hyn yn lleihau'r amser mae staff yn ei dreulio yn gwneud golch y cleifion yn hytrach nag yn gofalu am gleifion.

Roedd modd i’r cleifion ddefnyddio ffôn talu ar wal y ward; roedd cleifion oedd yn berchen ar ffôn symudol yn gallu ei ddefnyddio ar y ward ond dim ond yng nghyffiniau'r ffôn talu.

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd gofalgar a pharchus.

**<u>Y tîm amlddisgyblaethol</u>**

Dwy nyrs gofrestredig a dau gynorthwyydd gofal iechyd oedd staff craidd Carn y Cefn yn ystod y dydd, ac un nyrs gofrestredig a dau gynorthwyydd gofal iechyd yn ystod y nos. Pan fo angen mae Carn y Cefn yn defnyddio staff banc y bwrdd iechyd.

Ers i'r ward gael ei chau dros dro yn sgil nifer annigonol o staff, mae'r bwrdd iechyd wedi recriwtio ar gyfer amryw swyddi ac mae hyn wedi cynyddu'r nifer o staff sydd ar gael i'r ward.  Soniodd y staff a welsom ar ddiwrnod yr arolygiad am waith tîm da ac am dîm brwdfrydig sy'n ymroddedig i'r grŵp cleifion.

Roedd gan Garn y Cefn ddau feddyg ymgynghorol ar y safle. Nid oedd gan y ward therapydd galwedigaethol penodedig; ond roedd gan y ward ddau dechnegydd therapi galwedigaethol a oedd mewn cyswllt â'r therapydd galwedigaethol cymunedol. Gall staff gael mynediad at wasanaethau seicoleg, therapi iaith a lleferydd, a dietegol y bwrdd iechyd.

Yn ogystal â staff y ward buom yn siarad â staff o'r Tîm Triniaeth Gartref sydd wedi'i leoli yn yr un rhan o Ysbyty Aneurin Bevan. Soniodd yr holl staff am gysylltiadau da rhwng y timau preswyl a'r timau cymunedol oedd yn darparu llwybr gofal cyson i'r cleifion.  Mae aelod o dîm y ward yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Triniaeth Gartref er mwyn cynnal y cyswllt rhwng y ddau dîm.

## Therapïau a gweithgareddau i gleifion

Cynigiai Carn y Cefn raglen o weithgareddau i gleifion ar y ward. Roedd y cynllun gweithgareddau wedi'i arddangos ar y ward ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion. Cynigiai'r cynllun amrywiaeth o weithgareddau i gleifion, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau. Roedd nifer o gemau ac eitemau crefft ar gael i gleifion er mwyn gwneud gweithgareddau byrfyfyr.

Hefyd, dywedwyd wrthym fod prosiect cymunedol yn galw yn y ward bob pythefnos er mwyn darparu amrywiaeth o weithgareddau i gleifion.

Mae gan yr ysbyty gerbyd penodedig hefyd, er mwyn i staff fynd â chleifion i'r siopau lleol ac ar wibdeithiau cymunedol ymhellach i ffwrdd. Pan oedd yn briodol, roedd y cleifion hefyd yn gallu gadael yr ysbyty heb iddynt gael eu hebrwng, a hefyd gyda'u teulu neu eu gofalwyr.

Cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp cleifion bob pythefnos a arweinid gan y technegwyr therapi galwedigaethol.

## Gofal iechyd cyffredinol

Darperid ar gyfer anghenion iechyd corfforol y cleifion gan feddygon y bwrdd iechyd yn Ysbyty Aneurin Bevan. Yn gyffredinol, mae cleifion yn parhau i fod yn gofrestredig gyda'u gwasanaethau iechyd corfforol eu hunain, megis meddygon teulu a deintyddion. Serch hynny, roedd modd i gleifion ddefnyddio gwasanaeth deintydd brys hefyd. Roedd cleifion yn defnyddio siopau trin gwallt a siopau barbwr yn y gymuned leol.

## Bwyd a maeth

Roedd cyfleusterau arlwyo priodol ar y ward, a darperid prydau o'r gegin sydd ar y safle yn Ysbyty Aneurin Bevan. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty, a chynigir bwydlen ddietegol arbenigol yn ôl yr angen.

Mae gan yr ysbyty bolisi amseroedd bwyd gwarchodedig, er mwyn i'r cleifion fedru bwyta eu prydau heb ymyrraeth.

Roedd cleifion yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o fyrbrydau y tu allan i'r amseroedd bwyd, ac roedd diodydd ar gael yn gyfleus.

## *Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl*

Roedd naw claf yn derbyn gofal yng Ngharn y Cefn, a phob un ohonynt dros ddeunaw oed. Roedd nifer o gleifion wedi'u cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar adeg ein harolygiad. Gwnaethom adolygu sampl o ddogfennau statudol, a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Roedd y ddogfennaeth yn drefnus, a oedd yn ei gwneud hi'n hawdd i'w hadolygu; fodd bynnag, roedd nifer o feysydd y gellid eu gwella yn unol ag arfer da.

### Cadw cleifion

Wrth inni adolygu'r dogfennau statudol ar gyfer pob claf oedd wedi'i gadw dan Adran 2, *Derbyn ar gyfer Asesiad*[1], ac Adran 3, *Derbyn ar gyfer Triniaeth*[2], gwelsom fod o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo dan Adran 12[3], ac roedd o leiaf un o'r meddygon wedi cwrdd â'r claf o'r blaen[4]. Rhoddwyd rhesymau clir ynglŷn â pham mai cadw dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal, a pham nad oedd yn briodol i'w derbyn yn anffurfiol.

Ar gyfer cadw o dan Adran 3, roedd y dogfennau statudol yn nodi bod y triniaethau meddygol priodol ar gael yn yr ysbyty.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer eu cadw dan Adran 2 ac Adran 3, roedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy[5] ar gyfer pob achos wedi nodi perthynas agosaf y claf[6].

Wrth adolygu adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, nodwyd y gallai'r Gweithiwr oedd ynghlwm â'r achos fod wedi cysylltu â pherthynas agosaf y claf. Weithiau, fodd bynnag, ychydig o wybodaeth oedd ar gael ynghylch pryd y cysylltwyd â'r perthynas a ph'un a wnaed hyn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Yn achos un claf gwnaethom nodi nad oedd copi o adroddiad Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy wedi'i gadw gyda dogfennaeth gadw'r claf hwnnw. Mae'n arfer da i gadw copi o adroddiad Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy gyda dogfennaeth gadw'r claf unigol.

---

[1] Adran 2 – derbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
[2] Adran 3 – wedi'i dderbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
[3] Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) dan y Ddeddf fel un sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol. Mewn gwirionedd, mae byrddau iechyd yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.
[4] Pan fo hynny'n ymarferol, dylai un o'r meddygon sy'n argymell cadw claf fod wedi cwrdd â'r claf yn flaenorol – Adran 12(2) o'r Ddeddf.
[5] Gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r Ddeddf, a gymeradwywyd gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau dan y Ddeddf.
[6] Person a ddiffinnir gan Adran 26 y Ddeddf ac sydd â hawliau a phwerau penodol dan y Ddeddf mewn perthynas â chlaf y mae'n berthynas agosaf iddo.

Nid oedd unrhyw un o'r cleifion wedi bod yn destun cais brys dan Adran 4[7] na phwerau cadw dan Adran 5[8].

***Cam gofynnol***

***Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ar gael yn nodiadau unigol y claf.***

**Cadw parhaus**

Nid oedd yr un o'r cleifion wedi bod yn destun adnewyddu'r cyfnod cadw o dan Adran 20, Parhad Awdurdod.

**Rhan 132 – darparu gwybodaeth[9]**

Wrth adolygu nodiadau'r cleifion roedd yn amlwg bod y cleifion wedi cael eu hysbysu'n rheolaidd am eu hawliau o dan Adran 132 y Ddeddf. Cofnodwyd dealltwriaeth y claf o'i hawliau yn ei nodiadau, a hefyd os oedd wedi gwrthod ymwneud â'r broses.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod nodiadau'r cleifion yn cynnwys cyfeiriadau at roi gwybodaeth i gleifion, a bod y cyfeiriadau wedi cael eu tanlinellu neu eu lliwio er mwyn eu hamlygu. Mae'n werth rhannu'r arfer da hwn ledled y gwasanaeth.

**Apelio yn erbyn cadw claf**

Pe bai cleifion am apelio i’r Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl, roedd hi'n amlwg y byddai’r broses yn cael ei dilyn. Roedd y nodiadau'n nodi canlyniad y tribiwnlys ac yn dynodi bod y claf wedi cael ei hysbysu.

**Cydsynio i driniaeth**

Nid oedd yr un claf yn destun darpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58, ac ni fu angen i Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn[10] awdurdodi cydsyniad i driniaeth.

[7] Cais i gadw claf er mwyn asesu anhwylder meddyliol, a wneir ar sail un argymhelliad meddygol yn unig mewn achosion brys.
[8] Y pwerau yn Adran 5 y Ddeddf sy’n caniatáu i gleifion mewnol mewn ysbyty gael eu cadw dros dro fel y gellir gwneud penderfyniad ynglŷn ag a ddylid gwneud cais i’w cadw ai peidio.
[9] Mae Adran 132 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn rhoi cyfrifoldeb ar reolwyr yr ysbyty i gymryd pob cam ymarferol i sicrhau bod pob claf a gedwir yn derbyn gwybodaeth am ei hawliau.
[10] Meddyg annibynnol a benodir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n rhoi ail farn ynghylch a ddylid rhoi mathau penodol o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol heb gydsyniad y claf.

## Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17[11]

Nid oedd yr un o'r cleifion wedi cael caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17.

## Cleifion cyfyngedig

Nid oedd yr un o'r cleifion wedi cael eu cadw dan Ran 3 o'r Ddeddf, Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddedfryd.

[11] Caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty sy'n cael ei awdurdodi gan Glinigydd Cyfrifol y claf.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’n ofynnol i’r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi’r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Aneurin Bevan yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o’r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

*Atodiad A*

**Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu:** **Cynllun Gwella**

**Bwrdd Iechyd:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

**Lleoliad:** **Ysbyty Aneurin Bevan**

**Dyddiad yr arolygiad:** **21 Gorffennaf 2015**

| Rhif y dudalen | Gofyniad / Argymhelliad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Safonau Craidd** | | | | |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth wedi'i harddangos sy'n hysbysu cleifion o'u hawl i adael y ward, a sut i wneud hynny pan fo'r ward ar glo. | Bydd y ward yn llunio poster gwybodaeth ac yn ei osod yng nghyffiniau drws y ward i hysbysu cleifion pam y gallai'r drws fod ar glo a sut i'w ddatgloi os oes angen i'r claf adael y ward.<br><br>Bydd hwn ar gael yn Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhennir yr arfer hwn gyda'r holl unedau preswyl eraill a bydd presenoldeb y | Rheolwr y Ward<br><br>Arweinydd Llywodraethu Clinigol | Cwblhawyd<br><br>Chwefror 2016 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | poster yn cael ei fonitro yn ystod ymweliadau amgylcheddol. Bydd holl daflenni'r ward yn cynnwys adran sy'n hysbysu cleifion o'u hawl i adael y ward, a sut i wneud hynny pan fydd y drws ar glo. | | |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod larymau'n cael eu darparu i staff ac ymwelwyr yng Ngharn y Cefn. | Bydd Rheolwr y Ward yn atgoffa staff o bwysigrwydd cario larymau ac yn tynnu sylw'r tîm o staff at y polisi perthnasol. Bydd hefyd yn prynu rhagor o larymau drwy system Oracle. | Rheolwr y ward | Cwblhawyd |
| **Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl** | | | | |
| | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o adroddiadau'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ar gael yn nodiadau unigol y claf. | Bydd adran y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ymwneud â swyddogion arweiniol y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy, a thrafodir y mater yng nghyfarfod fforwm y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy. Fe'u hatgoffir bod yn rhaid i gopi o'r adroddiad gael ei roi yn nodiadau'r claf. Bydd yr arfer hwn yn cael ei rannu ledled yr adran. | Arweinydd y Ddeddf Iechyd Meddwl a swyddogion arweiniol y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy. | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd adran y Ddeddf Iechyd Meddwl yn diweddaru offeryn archwilio'r adran er mwyn iddo gynnwys y mater hwn. | Arweinydd y Ddeddf Iechyd Meddwl a swyddogion arweiniol y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy. | Rhagfyr 2015 |